**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**31 AWST 2021**

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 31 Awst 2022.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Paul Cunningham, Carol Ellis, Gladys Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers, Dan Rose ac Antony Wren

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:
Y Cynghorydd Gillian Brockley - Eitem 6.1 (061368) ar y rhaglen
Y Cynghorydd Gina Maddison - Eitem 6.2 (063910) ar y rhaglen

Roedd y Cynghorwyr Glyn Banks a Marion Bateman yn bresennol fel arsyllwyr.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Adele Davies-Cooke

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 14. DATGAN CYSYLLTIADAU

Ar eitem 6.1 ar y rhaglen (061368), datganodd y Cynghorwyr Hilary McGuill a Ted Palmer gysylltiad personol sy'n rhagfarnu fel aelodau bwrdd NEW Homes a gadawodd y ddau y cyfarfod cyn y drafodaeth.

Ar yr un eitem, datganodd y Cynghorydd Bernie Attridge gysylltiad personol gan fod gwrthwynebwyr wedi cysylltu ag o ar fwy na thri achlysur.

## 15. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau i ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=5227&Ver=4&LLL=0

## 16. EITEMAU I'W GOHIRIO

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) nad oedd unrhyw eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

**17. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Chris Bithell a Mike Peers eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

**18. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi ei gynnwys fel atodiad.

**19. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3.05pm)

**…………………………**
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau yn:http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

# PWYLLGOR CYNLLUNIO 31 AWST 2022

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 061368 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Newid defnydd tir i breswyl (Cymuned Sipsiwn-Teithwyr). Y safle i gynnwys un Garafán Statig, Un Garafán Deithiol, Gwaith Trin Dŵr a Lle Parcio ar gyfer Dau Gar gyda Llawr Caled ac Isadeiledd cysylltiedig ar dir wrth ochr Ashwood House, Church Lane, Ewlo | Ar ran trigolion lleol, siaradodd Philip Robson (Bargyfreithiwr) yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Gillian Brockley, fel yr Aelod Lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Yn dilyn datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu, gadawodd y Cynghorwyr Hilary McGuill a Ted Palmer y cyfarfod cyn y bleidlais. | Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad swyddog, ar y sail ganlynol: Cymeriad ac edrychiad yr ardal, diogelwch priffyrdd a cholli preifatrwydd. |
| 063910 | Cyngor Cymuned Llanasa | Cais llawn i Newid Defnydd tir ar gyfer lleoli carafanau gwyliau yn Woodbank Cottage, Mostyn Road, Gronant | Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran preswylydd lleol, Bill Rogerson.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Gina Maddison, fel yr Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog, gydag amod ychwanegol (Rhif 16) i sicrhau y cyflwynir Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| - | - | Materion Cyffredinol - Melin Bapur Shotton Adroddiad Effaith Leol ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol - Cais am Awdurdod Dirprwyedig i Ymateb | - | Dirprwyo Adroddiad Effaith Lleol y Cyngor, a'r argymhellion cysylltiedig, a'r amodau a awgrymwyd ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol Melin Bapur Shotton i swyddogion mewn ymgynghoriad ag Aelodau lleol (Cei Connah Gwepra a Chanol Cei Connah). |